


Ail Gynllun Datblygu Lleol Newydd Bwrdeistref Sirol Caerffili 2020-2035

# EB2.1 Ymgyslltiad Cyn-Adneuo (Atodiad)

***Ionawr 2025***

CAERPHILLY COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI

This document is available in English,
and in other languages and formats on request.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg, ac
mewn ieithoedd a fformatau eraill ar gais.

# Ail Gynllun Datblygu Lleol Newydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili 2020–2035

# EB2.1 Atodiad i Ymgysylltiad Cyn Adneuo Ionawr 2025

## Cyflwyniad

Dechreuodd y Cyngor y gwaith ar Ail Gynllun Datblygu Lleol Newydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili 2020-2035 (2RLDP) ym mis Hydref 2020. Bydd yr 2RLDP ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2020 tan 31 Mawrth 2035.

Ymgynghorodd y Cyngor ar ei Gynllun Cyn Adneuo cyntaf ar gyfer yr 2RLDP ym mis Hydref a mis Tachwedd 2022. Cafwyd Gwrthwynebiadau Cydymffurfiaeth i'r cynllun gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â dyraniad y Safle Strategol, y dull a chyd-destun rhanbarthol o ran twf, a'r dull gweithredu seiliedig ar natur. O ganlyniad i'r gwrthwynebiadau hyn, mae newidiadau wedi'u gwneud i'r strategaeth Cyn Adneuo.

O ystyried bod newidiadau wedi'u gwneud i'r strategaeth (Strategaeth a Ffefrir Ddiwygiedig), mae'r Cyngor yn cymryd cam yn ôl yn y broses ac yn cynnal ail ymgynghoriad ar y Cynllun Cyn Adneuo gyda'i ddiwygiadau.

Mae'r Atodiad hwn wedi'i lunio i amlinellu'r ymgysylltiad Cyn Adneuo gwreiddiol yn 2022, ac i fanylu ar yr ymgysylltiad Cyn Adneuo diweddaraf i'w gynnal yn 2024/2025.

# Ymgysylltiad y Cynllun Cyn Adneuo

## Ymgysylltiad y Cynllun Cyn Adneuo, 2022

Cafodd y papur sylfaen dystiolaeth *EB2 Ymgysylltiad Cyn Adneuo* ei lunio yn ystod gwaith paratoi'r Cynllun Cyn Adneuo cyntaf ym mis Hydref 2022. Mae'r papur hwn yn dangos cydymffurfiaeth â'r Cynllun Cynnwys Cymunedau (CCC) sy'n ffurfio rhan o Gytundeb Cyflawni Ail Gynllun Datblygu Lleol Newydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (2RLDP), a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2021.

Mae hefyd yn manylu ar yr ymgysylltu sydd wedi digwydd â rhanddeiliaid i lywio'r weledigaeth, lefel y twf a'r opsiynau strategol a gafodd eu hystyried fel rhan o'r Strategaeth a Ffefrir.

**Y Cynllun Cynnwys Cymunedau (CCC)**

Mae'r CCC yn nodi egwyddorion, strategaeth a mecanweithiau'r Cyngor ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid drwy gydol proses baratoi'r 2RLDP. Cydymffurfiodd y Cyngor â'r gofynion ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned fel y nodir yn y CCC.

Mewn ymgais i ymgysylltu â chynulleidfa mor eang â phosibl yn yr ymarfer ymgynghori cyhoeddus Cyn Adneuo, defnyddiodd y Cyngor amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu fel yr amlinellwyd yn y CCC. Dyma rhai o'r dulliau ymgynghori a ddefnyddiwyd:

- E-byst/llythyrau i bob unigolyn a sefydliad ar Gronfa Ddata Ymgynghori'r Cynllun Datblygu Lleol i roi gwybod iddyn nhw am yr Ymgynghoriad Cyn Adneuo. Cysylltwyd â 626 o gyrff i gyd a rhoddwyd manylion iddyn nhw am sut i gael mynediad at y dogfennau ymgynghori a dywedwyd wrthyn nhw sut i ymateb.
- Dosbarthwyd taflenni i bob aelwyd yn y Fwrdeistref Sirol.
- Arddangoswyd posteri ym mhob llyfrgell ac o fewn siopau dethol.
- Gwefan ryngweithiol yn arddangos yr holl ddeunydd ymgynghori, gan ganiatáu i sylwadau uniongyrchol gael eu gwneud ar-lein.
- Gwefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, hyrwyddo ar y Cyfryngau Cymdeithasol a Datganiad i'r Wasg.
- Cyhoeddwyd erthygl yn y Caerphilly Observer ar 19 Hydref 2022, o'r enw 'Consultation begins on plan that will shape the county borough.'
- Cynhaliwyd arddangosfeydd dros dro ledled y Fwrdeistref Sirol yn aneddiadau Caerffili, Rhisga, Bargod, Coed Duon a Maes-y-cwmer.

- Arddangosfa statig yng Nghanolfan Busnes a Thechnoleg Tredomen, Ystrad Mynach.
- Roedd swyddogion ar gael drwy Linell Gymorth y Cynllun Datblygu Lleol ac ar sail apwyntiad yn Nhŷ Tredomen drwy gydol y cyfnod ymgynghori.

**Ymgysylltu â rhanddeiliaid**

Cynhaliwyd cyfres o seminarau manwl gyda Swyddogion, Rhanddeiliaid, Aelodau Etholedig, Cynghorwyr Cymunedol a Fforwm Ieuenctid y Cyngor i ystyried proses y Cynllun Datblygu Lleol, gan gynnwys seminar gyflwyno ar gyfer Aelodau Etholedig a Chynghorau Cymunedol, a seminarau i ystyried Datblygu Gweledigaeth, Lefel y Twf y dylai'r 2RLDP ganiatáu ar ei chyfer ac Opsiynau Strategaeth ar gyfer gwasgaru gofynion tir y Cynllun Datblygu Lleol. Mae manylion y cynnwys a chanlyniadau'r seminarau hyn yn y papur sylfaen dystiolaeth EB2 Ymgysylltiad Cyn Adneuo.

Yng ngoleuni canlyniad y gyfres seminarau, defnyddiwyd lefel y twf, Rhagamcan J - Twf ym Mhoblogaeth Oedran Gweithio Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (450 uned y flwyddyn) a defnyddiwyd strategaeth hybrid yn seiliedig ar elfennau o Opsiwn 3: Y Safle Strategol, Opsiwn 4: Ffocws ar y metro ac Opsiwn 5: Ffocws ar ganol trefi, fel sail i'r 2RLDP.

## Cynllun Cyn Adneuo (Strategaeth a Ffefrir Ddiwygiedig) Hydref 2024

I fynd i'r afael â Gwrthwynebiadau Cydymffurfiaeth Llywodraeth Cymru i'r Cynllun Cyn Adneuo 2022, mae rhai newidiadau wedi'u gwneud i'r strategaeth.

Mae lefel y twf, Rhagdybiaeth J – Twf ym Mhoblogaeth Oedran Gweithio Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (450 uned y flwyddyn), yn parhau i gael ei hystyried yn briodol. Fodd bynnag, o ganlyniad i gael gwared ar y safle strategol o'r cynllun, defnyddiwr strategaeth hybrid yn seiliedig ar elfennau o Opsiwn 4: Ffocws ar y metro ac Opsiwn 5: Ffocws ar ganol trefi fel sail i'r 2RLDP.

## Ymgysylltiad y Cynllun Cyn Adneuo, 2024/2025

Er bod newidiadau wedi'u gwneud mewn ymateb i wrthwynebiadau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys cael gwared ar y safle strategol, ni chredir bod angen ailedrych ar yr ymgysylltiad cychwynnol â rhanddeiliaid fel yr opsiwn twf ac ystyrir bod y strategaeth sy'n weddill yn briodol fel sail i'r 2RLDP. Yn lle hynny, mae'r Cyngor yn cymryd cam yn ôl yn y broses ac yn cynnal ail ymgynghoriad ar y Cynllun Cyn Adneuo gyda'i ddiwygiadau.

Mae'r Atodiad hwn wedi'i lunio i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y dulliau ymgysylltu a hefyd i ddangos cydymffurfiaeth â Chytundeb Cyflawni Ail Gynllun Datblygu Lleol Newydd Bwrdeistref Sirol Caerffili 2020–2035 (2RLDP), Diwygiad Cyntaf (CD Diwygiedig), a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2024.

**Y Cynllun Cynnwys Cymunedau (CCC)**

Mae’r CCC yn nodi egwyddorion, strategaeth a mecanweithiau'r Cyngor ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid drwy gydol proses baratoi’r 2RLDP.

Bydd manylion yr 2RLDP sy’n dod i’r amlwg a’i brosesau a chynnydd yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor drwy gydol y broses. Byddwn ni’n ceisio cyhoeddi proses yr 2RLDP ar bob cam a chyrraedd cymaint o’r gymuned, a rhanddeiliaid eraill, â phosibl, i gynghori pobl ynghylch yr 2RLDP a sut allan nhw gymryd rhan.

Bydd hyn yn cael ei wneud drwy’r dulliau canlynol:

- Cyswllt uniongyrchol (h.y. drwy e-bost neu lythyr yn ddelfrydol), mae cronfa ddata ymgynghori’r Cyngor bellach yn cynnwys manylion cyswllt dros 1,700 o bobl a sefydliadau sydd â diddordeb.
- Drwy’r Cyfryngau Cymdeithasol (Twitter, drwy ddefnyddio cyfrif corfforaethol @CaerphillyCBC, Facebook ar dudalen Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili).
- Manylion wedi'u hychwanegu at lwyfan Trafodaeth Caerffili.
- Ymgysylltu ag Aelodau Etholedig trwy weithdai penodol, sesiynau galw heibio i Aelodau ac mewn adroddiadau i gyfarfodydd priodol y Cyngor.
- Bydd holl wybodaeth a dogfennau’r 2RLDP ar gael ar wefan y Cyngor, a fydd yn cael ei diweddaru’n gyson.
- Adneuo dogfennau ym mhrif swyddfa a llyfrgelloedd y Cyngor lle bo modd.
- Datganiadau i’r wasg ar gyfer y cyfryngau lleol, pan fo’n briodol.
- Llunio dogfennau Crynhoi Hawdd eu Deall ar gyfer cyfnodau allweddol proses yr 2RLDP.
- Arddangosfeydd cyhoeddus, sesiynau galw heibio a chyfarfodydd mewn lleoliadau hygyrch a niwtral.
- Fideos, ymgysylltu rhithwir ac ymgynghori drwy dechnoleg ar y we megis gweminarau.
- Bydd hysbysiadau safle yn cael eu harddangos ynghylch dyraniadau tir arfaethedig yn ystod y cam Adneuo.

Ar ben hyn, ac mewn ymgais i feithrin rhagor o ymgysylltu, mae'r Cyngor yn bwriadu defnyddio Cymorth Cynllunio Cymru i ymgysylltu ac ymgynghori ar y Cynllun Cyn Adneuo. Er y bydd Swyddogion ar gael ar gyfer cyfarfodydd a sesiynau galw heibio, bydd digwyddiadau ffurfiol yn cael eu trefnu a’u hwyluso gan Cymorth Cynllunio Cymru.